

Atodiad I

Adborth o gyfarfod cynrychiolwyr y cyngor gydag uwch swyddogion BIPBC ar 8 Chwefror, 2013

Cafodd cynrychiolwyr y cyngor gyfarfod bywiog, cadarnhaol ac adeiladol gydag uwch swyddogion PBC ar Ddydd Gwener, 8 Chwefror. Mynychwyd y cyfarfod gan bob un o'r 10 aelod etholedig a enwebwyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 5 Chwefror, yn ogystal â Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych, a Mary Burrows, Prif Weithredwr BIPBC, Grace Lewis-Parry, (Cyfarwyddwr), Neil Bradshaw (Cyfarwyddwr) a Sally Baxter, (Cyfarwyddwr Cynorthwyol).

Er bod aelodau yn parhau i fod yn anfodlon iawn gydag agweddau o'r cynigion, cafwyd sicrwydd ar rai eraill. Cytunwyd ar gyfres o weithredoedd ar gyfer meysydd oedd heb eu datrys:

Cyfalaf

Ar gyllid cyfalaf, nododd aelodau bod £27m o'r cyfanswm o £40m sydd ei angen ar draws Gogledd Cymru ar gyfer cyfleusterau iechyd cymunedol newydd o fewn Sir Ddinbych. Er bod y Bwrdd yn obeithiol y byddai llwyddiant, ni allent roi addewid pendant y byddai'r arian sy'n ofynnol yn dod o Lywodraeth Cymru ac felly ni allai'r cymunedau lleol yn Rhyl, Prestatyn a Llangollen dderbyn y sicrwydd yr oedd arnynt ei angen. Mae Cyngorwyr yn parhau i fod yn anfodlon gyda'r ffaith nad yw PBC na Llywodraeth Cymru yn fodlon rhoi addewid o gyllid cyfalaf cadarn ac maen nhw'n poeni y bydd yr amserlenni'n llithro o ganlyniad.

Esboniodd y Bwrdd bod y drefn gyfalaf i'r GIG yn wahanol i lywodraeth leol, a bod yna resymau barnwrol pam na ellir rhoi gwarantau pendant - h.y. ni cheir cyflwyno achosion busnes terfynol i Lywodraeth Cymru hyd nes bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, mae gwaith paratoadol sylweddol (oddeutu 70% o'r gwaith sydd ei angen ar gyfer Achos Busnes Amlinellol Strategol) eisoes wedi'i gynnal i gyfleuster Gogledd Sir Ddinbych a Chanolfan Adnoddau Gofal Cynradd Llangollen ac mae'r ddau "uwchben y llinell" h.y. yn y grŵp blaenoriaeth uchaf ym mlaengynllun cyfalaf Llywodraeth Cymru, ac wedi bod felly ers 18 mis. Mae'r amserlen gyfredol yn amcangyfrif y bydd y ddau gynllun wedi'u cwblhau erbyn diwedd 2015/16. Dywedodd cynrychiolwyr y PBC bod ganddynt record dda o gyflwyno achosion busnes llwyddiannus gan gyfeirio at achosion gwelliannau i Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys YGC ac, yn ddiweddar, at y labordai cathetreiddio.

Mae uwch reolwyr PBC wedi trafod yn benodol y mater o gymeradwyo cyfalaf gyda Llywodraeth Cymru ar y lefel uchaf ac wedi cyfleu eto i swyddogion bwysigrwydd yr ymrwymadau hyn i bobl yng Ngogledd Cymru. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Cyngor yn ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd gan dynnu ei sylw at bwysigrwydd ymrwymiad eglur a chyflym i gynlluniau Sir Ddinbych. Yn ei dwylo hi y mae'r gallu i roi cymeradwyaeth derfynol i'r cynlluniau hyn.

Trosglwyddo

Yn nhermau trosglwyddo o'r gwasanaethau sy'n bodoli eisoes i wasanaethau newydd, roedd aelodau'n feirniadol o'r effaith y byddai'r gwasanaethau interim yn eu cael ar bobl leol. Er enghraifft, byddai cau ysbyty Prestatyn yn golygu teithiau anodd i bobl leol i Dreffynnon, gyda chysylltiadau cludiant cymharol wael. Roeddynt hefyd yn feirniadol o'r modd yr oedd PBC wedi cyfathrebu gwybodaeth am y newidiadau gan dynnu sylw at enghraifft o Langollen; yno, roedd yn ymddangos fel nad oedd un rhan o PBC yn gwybod sut y byddai newidiadau a gynlluniwyd gan ran arall yn cael eu gweithredu. Roeddynt yn amheus o'r trefniadau interim a mynegwyd peth dicter bod PBC yn dechrau gweithredu newidiadau gan esgus talu sylw i ymateb terfynol y Cyngor Iechyd Cymuned. Canlyniad hyn oedd teimlad ymhlith y cyhoedd nad oedd sylw wedi'i roi i'w teimladau a bod PBC wedi colli ewylllys da.

Rhodddwyd esboniad gan gynrychiolwyr PBC bod yn rhaid i rai gwasanaethau presennol gau er mwyn cadw gwasanaethau yn ddiogel heddiw ac er mwyn gallu paratoi ar gyfer gwasanaethau newydd. Er enghraifft, mae rhai Unedau Mân Anafiadau wedi bod yn dioddef o brinder staffio difrifol ond bydd modd i wasanaethau fod yn fwy cyson os ydynt wedi'u hatgyfnerthu ar safleoedd canolog ysbytai. Mae Chatsworth House wedi bod yn dioddef ers peth amser oherwydd capasiti a rheoliadau tân. Nid oedd cael gwelyau mewnol yn Nhreffynnon yn ddelfrydol, ond roedd y Gwasanaeth Gofal Gwell eisoes yn ei le yng Ngogledd Sir Ddinbych. Yn achos De Sir Ddinbych, roedd angen i ysbyty Llangollen gau er mwyn galluogi staff i gael eu trosglwyddo a'u paratoi ar gyfer Gwasanaethau Gofal Gwell De Sir Ddinbych newydd (byddai gwelyau mewnol yn cael eu darparu yn y Waun). Nid oedd y trefniadau interim yn ddelfrydol a dywedwyd wrth aelodau bod PBC yn ceisio gwneud y trefniadau trosglwyddo mor fyr â phosibl. Dywedodd PBC bod ganddynt gryn dipyn o waith cyd-bwysio - roedd yn rhaid rheoli'r newid er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy tra bod hefyd yn rhaid cadw gwasanaethau presennol yn ddiogel.

Dywedodd PBC nad oeddynt yn esgus talu sylw i'r Cyngor Iechyd Cymuned. Fodd bynnag, ni chaiff Byrddau Iechyd eu rhwystro rhag gwneud newidiadau tra bo prosesau'r Cyngor Iechyd Cymuned yn mynd rhagddynt. Mae yna gysylltiad agos yn parhau rhwng y Cyngor Iechyd Cymuned a'r Bwrdd, ac nid yw'r Cyngor Iechyd Cymuned yn gwrthwynebu nifer o'r newidiadau sy'n cael eu cynnig. Os yw'r Cyngor Iechyd Cymuned yn atgyfeirio'r cynlluniau i'r Gweinidog, a bod penderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu gwrthdroi, yna bydd unrhyw newidiadau a wnaed gan PBC yn cael eu gwrthdroi hefyd.

Cytunwyd bod angen cynnal mwy o gyfarfodydd dwyochrol i gynnal trafodaeth a sicrhau bod gwybodaeth yn llifo. Byddai'r rhain yn adeiladau ar fforymau iechyd a gofal cymdeithasol y Cyngor sydd eisoes wedi cael eu sefydlu.

Cludiant

Ar gludiant, ail-nododd PBC eu sefyllfa set bod ganddynt gyfrifoldeb statudol i ddarparu cludiant trwy gyfrwng y gwasanaeth ambiwlans i'r sawl sy'n bodloni'n meini prawf o ran bod yn gymwys. Ond nid oes cyfrifoldeb arnynt i ddarparu cludiant i bawb. Mae'r holl feysydd gwasanaeth y bu ymgynghoriad arnynt wedi gorfod ystyried goblygiadau cludiant. Maen nhw'n ymwybodol bod y cymhorthdal cludiant cyhoeddus i awdurdodau lleol yn cael ei dorri. Maen nhw wedi cael rhai trafodaethau gyda chynllunwyr cludiant awdurdod lleol a chyrrff cludiant cymunedol gan neilltuo £80k ar gyfer gwaith gyda'r sector gwirfoddol. Maen nhw wedi cytuno i weithio mewn partneriaeth

gyda chyrrff sector cyhoeddus i ddatblygu cynllun cludiant. Dylid clustnodi rhai ffyrdd allweddol fel blaenoriaeth ar gyfer gwaith, e.e. Prestatyn i Dreffynnon.

Costau gofal

Amlinellodd Aelodau eu pryderon y byddai symud gwasanaethau iechyd o ysbytai ac i'r gymuned yn siŵr o effeithio ar gostau gofal cymdeithasol. Nid oedd hyn ond yn berthnasol i'r gwasanaethau oedd eisoes wedi bod yn destun ymgynghori, roedd hefyd yn wir am eraill, e.e. Trawma a gwasanaethau orthopedig a gofal lliniarol. Roeddynt hefyd yn bryderus ynghylch effaith y cynigion ar ofalwyr - yn nhermau'r baich ychwanegol ar ofalwyr ond hefyd y ffaith y byddai ar ofalwyr eu hunain angen gwasanaethau cefnogol ychwanegol - gwasanaethau yr oedd cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol i'w darparu.

Nododd PBC eu bod yn derbyn y gallai'r model gofal gwell arwain at gostau ychwanegol i wasanaethau cymdeithasol, er eu bod yn credu bod tystiolaeth y gellid gwrthbwysu'r costau hynny gan fod cleifion yn dioddef llai o aflonyddwch ac felly angen llai o ofal na'r hyn fydden nhw ei angen petaent wedi bod yn yr ysbyty.

Mae oddeutu 50% o'r sawl sy'n derbyn y Gwasanaeth Gofal Gwell yn ei dderbyn fel "cam i lawr" o ysbyty. Pwysleisiodd y Bwrdd y bydd y GIG yn talu am holl gostau'r cleifion hyn - costau gofal iechyd a gofal cymdeithasol - tra'u bod yn derbyn gofal gwell. Mae'r 50% arall o gleifion sy'n derbyn y Gwasanaeth Gofal Gwell yn ei dderbyn fel cleifion "cam i fyny", h.y. mae eu meddyg teulu o'r farn y gallent dderbyn gofal yn y cartref yn lle mynd i mewn i ysbyty. Mae rhai o'r cleifion hyn eisoes yn derbyn pecyn o ofal cymdeithasol ac nid oes cytundeb clir a diamwys hyd yma ynghylch pwy ddylai dalu am hyn pan fydd ar y claf angen y Gwasanaeth Gofal Gwell. Cytunwyd i ymgymryd â modelu ariannol, ar draws PBC ac awdurdodau lleol, ar effaith y Gwasanaeth Gofal Gwell fel y gellir ymateb ar y cyd.

Cafwyd cytundeb hefyd i gasglu set gyffredin o ddata er mwyn gallu monitro a gwerthuso dros amser effaith a dylanwad y Gwasanaeth Gofal Gwell ar iechyd, gofal cymdeithasol a thrigolion.

Yn nhermau'r effaith ar ofalwyr, mae gwerthusiad wedi dangos bod y Gwasanaeth Gofal Gwell yn boblogaidd gyda gofalwyr, ac mae PBC wedi bod yn gweithio i ddatblygu Strategaeth Gofalwyr sy'n codi o'r Mesur Gofalwyr.

Ysbyty Glan Clwyd

Rhoddodd Mary Burrows ymrwymiad diamwys i ddyfodol YGC fel ysbyty Cyffredinol dosbarth. Mae hyn yn cynnwys cadarnhau ei ddyfodol fel canolfan llawdriniaeth fasgwlar cymhleth. Bydd YGC yn perfformio swyddogaethau canolbwynt ysbyty ond hefyd yn cynnal gwasanaethau craidd, darparu ystod o swyddogaethau Ysbyty Cyffredinol Dosbarth a swyddogaethau arbenigol. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at yr ystod o fuddsoddiadau cyfalaf (cyfanswm o tua £100m) sydd eisoes wedi'u sicrhau yn YGC gan gynnwys buddsoddiadau yn yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys, theatrau a labordai cathetreiddio. Cynigiwyd y gallai Dr Harborne ddod i siarad gyda chynghorwyr ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig y rhai i bobl hŷn a goblygiadau'r newidiadau arfaethedig i Glan Traeth ac Ablett. Cytunodd cynrychiolwyr PBC hefyd i gynhyrchu dogfen math "glasbrint" yn esbonio beth sy'n cael ei gynllunio ar gyfer ei ddarparu o safle YGC yn y dyfodol.

Gwasanaethau Gofal Dwys Newydd-anedig

Derbyniodd aelodau esboniad manwl ynghylch y materion sy'n dylanwadu ar y penderfyniad i ddarparu gofal dwys newydd-anedig yn Arrowe Park. Roedd cytundeb unfrydol mai dewis cyntaf pawb fyddai gallu darparu'r gwasanaeth hwn yng Ngogledd Cymru ond, o safbwynt y Bwrdd, roedd y dystiolaeth glinigol ac ariannol yn dangos nad oedd hyn yn ddichonadwy. Roedd yr Aelodau yn derbyn yr esboniadau cynhwysfawr a roddwyd er nad ydynt yn hoffi'r penderfyniad.

Casgliad

Ar ddiwedd y cyfarfod, mewn sesiwn breifat, daeth cynghorwyr i'r casgliad:

- eu bod yn falch o'r sicrwydd a roddwyd ynghylch Ysbyty Glan Clwyd
- bod angen dal ati i roi pwysau ar y mater o gyllid cyfalaf – gan gynnwys y cyngor yn ysgrifennu at y gweinidog i sicrhau addewidiol gan Lywodraeth Cymru
- bod cynnydd da ynghylch cludiant. Mae angen parhau i ddilyn hyn i fyny
- nad oedd llawer o gynnydd wedi'i wneud ar drosglwyddo er bod gwell dealltwriaeth o'r rhesymau dros weithredoedd y Bwrdd. Mae'n debyg mai'r Fforwm Sirol, gyda mwy o gyfranogiad aelodau nag y cynlluniwyd yn wreiddiol, oedd y ffordd ymlaen ar hyn
- mae'n rhaid mynd i'r afael â'r gwaith o drefnu costau gofal a systemau gwerthuso

Mynychodd y Cynghorwyr canlynol y cyfarfod: Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Cynghorydd Huw Williams, Cynghorydd Alice Jones, Cynghorydd Stuart Davies, Cynghorydd Pat Jones, Cynghorydd Jason McLellan, Cynghorydd Peter Evans, Cynghorydd Gwyneth Kensler, Cynghorydd Bobby Feeley, Cynghorydd Arwel Roberts